



Yr Amhersonol (cryno a chwmpasog)

Ffuriau cryno

Fel arfer, mae terfyniad y ferf yn dangos y person a'r amser. Ond, mae terfyniad yr amhersonol, yn dangos yr amser yn unig. Y terfyniadau sy'n cael eu defnyddio amlaf ydy **-ir**, **-wyd**, **-id**.

Dyma ffuriau amhersonol y ferf.

-ir	Gwelir	Yr amser presennol	Gwelir blodau yn y gwanwyn
-wyd	Gwelwyd	Yr amser gorffennol	Gwelwyd eira yn y gaeaf
-id	Gwelid	Yr amser amherffaith	Gwelid gwiwerod coch mewn coedwigoedd

Trefn arferol y frawddeg Gymraeg ydy **Berf + Goddrych + Gwrthrych**, e.e.

- Rhedodd y ferch y ras.
- Ysgrifennodd y bardd gerdd.
- Dylai'r plant gael gwersi.

Fodd bynnag, dydy brawddegau sy'n cynnwys yr amhersonol ddim yn dilyn y drefn yma. Gyda ffuriau'r amhersonol, mae'r gwrthrych yn dilyn y ferf a'r goddrych neu'r person sy'n gyfrifol am y weithred yn dod ar ôl ffurf briodol **gan**, e.e.

- Rhedwyd ras gan y ferch.
- Ysgrifennwyd y gerdd gan y bardd.
- Ysgrifennwyd yr englyn ganddo ef.

Cofiwch

- Does dim treigladd meddal yn dilyn terfyniadau'r amhersonol, e.e.
Ysgrifennodd y bardd **gerdd**. > Ysgrifennwyd cerdd gan y bardd.

Ffuriau cwmpasog

Ar lafar y ffuriau cwmpasog gyda'r ferf **cael** sy'n cael eu defnyddio fel arfer. Dyma'r patrwm.

- Mae'r ddrama **wedi cael ei pherfformio** yno.
- Bydd y plant **yn cael eu cario yno** mewn bws.
- Roedd y ferch **yn cael ei gwarchod** gan ei brawd.
- **Cafodd** y llythyr **ei bostio** ddoe.
- **Caiff** y gath **ei chasglu** bore fory.

Cofiwch:

- Mae'r rhagenw'n cyfateb â'r gwrthrych, e.e.
 - Mae'r **plant** yn cael **eu** disgyblu.



- Mae'r **ferch** wedi cael **ei** hanwybyddu.
- Mae treigladau'n dilyn y rhagenwau.
 - fy + treigladd trwynol
 - dy, ei (g) + treigladd meddal
 - ei(b) + treigladd llaes